Cynhelir Cyfarfod or Cyngor ar 5ed o Hydref 2022 am 7.30 or gloch yn y festri. Presennol oedd Arwyn Ellis, Generys Roberts, Medwyn Roberts, Llyr Jones, Helen Jones, Gethin Jones, Eryl Evans ar Cyngh Gwennol Ellis.
Croesawodd y Cadeirydd y Cyngh Gwennol Ellis inn plith gan ddymuno dda iddi yn ei swydd.
Gytunwyd bod y cofnodion blaenorol yn gywir.
Codi or cofnodion.
Cartrefi Conwy - deallwn bod y broblem llygod mawr dal yn bryder mawr ir pentrefwyr – pasiwyd i gysylltu eto a Cartrefi Conwy yn datgan ein pryder unwaith eto, cawn arddeall bod cyngh Gwennol Ellis yn edrych mewn ir Sefyllfa hefyd. Roedd y cynghorwyr yn awddus iawn imi gysylltu ar Cyngor Sir Conwy i drio cael llinnellau menlyn tu allan ir ddau fyngalow sydd yn parcio yn y ffordd.tia
Nant y Geuryd - nid oes dim wedi ei wneud ir clawdd sydd yn llithro y Cyng Gwennol Ellis yn mynd i gael golwg.
Gwaith Ffensio yn y cae Peldroed bydd y gwaith yn cychwyn yr wythnos nesaf.
<u>Gohebiaeth</u>
Ty Gobaith - Llythyr yn gofyn am gyfraniad pasiwyd i <u>gyfrannu</u> £100.00.
Elusen Gymunedol Llanfihangel Glyn Myfyr - cyfraniad wedi ei dderbyn yn dilyn cais am arian oddiwrth y twrbein gwynt Bodtegir, derbyniwyd £992.40 i wneud mainc yn y fynwent a bwrdd picnic yn y Gro, y clerc i gysylltu efo Ian Evans i wneud y gwaith.
Mandet Banc - Angen arwyddo mandetMandet Banc - Angen arwyddo mandet.
Zurich Insurance - £276.21 wedi ei dalu yn ol yn mis Mehefin.
Dwr Cymru - Wedi ei dalu DD £51.20
Lelo sgip - anfoneb am sgip yn ol yn mis Mai £312.00 pasiwyd iw dalu.
Alan Davies - angen talu yr ail ran sef £850.00 am dori y gwair y mynwentydd.
Claddu - derbyniwyd cost claddedigaeth y diweddar Mr Barber Tal y Cefn - £80.00.
UNRYW FATER ARALL
Tan Gwyllt – pasiwyd i gynnal noson tan gwyllt am 6.00 nos Sadwrn 5ed o Dachwedd – gofyn i tafarn y Crown wneud y bwyd ac mynd o amgylch yn casglu roddion er bydd yr Ambiwlans Awyr Cymru. Med yn gofalu am gael y tan gwyllt eto eleni. Eryl i wneud arwyddion ir pentre i hysbysu Noson Tan Gwyllt.
Swper Dolig - pasiwyd i gynnal swper ir henoed eleni a gofyn ir Giler arms am fwydlen ar dyddiad mewn golwg nos Iau 24 o Dachwedd am 7.00, Croesawy Eryl a diolchiadau gan Generys. Pawb i ddod a raffl ar y noson.
Sgip - pasiwyd i gael sgip arall yn mis Tachwedd gofyn hefyd i Cyngor Conwy am bris rhag ofn bod yn rhatach na Lelo.
Gully - pasiwyd i gysylltu a Cyngor Sir Conwy i dweud am y gully sydd angen ei llnau wrth Tan Rhiw.
Coeden Nadolig - pasiwyd i gael coed ir pentref eleni Llyr i fod yn nghofal y goeden ac mae Generys am holi Dewi os fuasem yn cael cysylltiad trydan.
Y Gro pasiwyd i holi Paul Williams syn gweithio i Gyngor Sir i gael syniadau ar geisio mynd am gais ariannol i ddatblygu lle chwarae i blant.

Daeth y Cyfarfod I ben am 9.00.

Dyddiad nesaf Ionawr 2023.